# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 15.09.2015*



# *Gwibdaith Mathemateg i Lundain*

Ar yr 8fed o Orffennaf fe aeth yr adran Fathemateg a 50 o ddisgyblion o flwyddyn 9 ar wibdaith i Lundain.  Bu'r grwp yn ymweld gyda'r Amgueddfa Wyddoniaeth cyn mynd ar drip ar y 'London Eye' a thaith ar yr afon Tafwys.  Roedd y gwesty, sef un o neuaddau preswyl Prifysgol Llundain, yr UCL yn Camden Town yn dipyn o agoriad llygad! Gwahanol iawn i dref Caerfyrddin. Wedi brecwast, cafwyd taith gerdded o amgylch y ddinas gan dywyswyr profiadol a chyfle i'r disgyblion ddysgu am sut y tyfodd Llundain i fod yn un o ddinasoedd mwyaf llewyrchus y byd. Cyn gadael, cafwyd cyfle i ymweld â Banc Lloegr lle cafwyd tywyswr Cymraeg!



Cafwyd taith ardderchog, pawb wedi mwynhau heblaw efallai am yrwyr y bws oedd yn gorfod gyrru mewn traffic difrifol o ganlyniad i streic gan weithwyr y Tiwb.
Diolch i bawb fynychodd y daith.

## Trip Anwytho Blwyddyn 12



Ar ddydd Gwener y 4ydd o Fedi aeth criw blwyddyn 12 a'u tiwtoriaid ar drip anwytho i Barc Antur Heatherton. Cafwyd cyfle i fwynhau yn yr haul a phrofi gweithgareddau o bob math. Cafwyd glychfa go iawn ar y cychod clatsio, cyfle i gyrraedd y canol llonydd gyda'r saethyddiaeth, curo'r athrawon yn rasio wrth go cartio, anelu am dwll mewn un gyda'r golff dwl, curo'r athrawon wrth saethu colomennod clau a sgrechen wrth hedfan lawr y "zip wire".

Roedd yn brofiad bythgofiadwy ac fe lwyddwyd i greu hunaniaeth a chyffro newydd ymysg Blwyddyn 12 a'r athrawon. Bellach roedd pawb yn edrych ymlaen at y flwyddyn gyffrous sydd o'u blaenau.



Adroddiad gan Sioned Ffion a Safara Halpin -Jones

# Taith newydd

Mae hefyd yn ddechrau newydd sbon i 141 o ddisgyblion o flwyddyn 7 sy'n dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Bro Myrddin. Rwy'n siŵr y byddant yn ymgartrefu'n fuan iawn yn ein plith. Estynnwn yr un croeso i Miss Hannah Mc Avoy i'r adran Saesneg, Mrs Ffion Page i'r adran Gymraeg, a Miss Siân Davies i'r adran Fathemateg a Mr Wayne Nicholas ein gofalwr newydd. Dymuniadau gorau i bawb.

# Uwch swyddogion

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd  fe fydd  Lowri Luxton a Aled Rosser yn dechrau ar eu taith fel ein prif ferch a phrif fachgen.



Yn eu cynorthwyo bydd criw brwdfrydig o’r chweched - Lowri Butterworth, Mared Jones, Ieuan Jones ac Iwan Harries. Pob lwc iddynt yn eu rôl newydd.



# *Taith blwyddyn 7 Addysg Grefyddol i Baris*



Yn gynnar bore Sadwrn yr 11eg o Orffennaf teithiodd criw o ddisgyblion blwyddyn 7 i Baris gyda'r Adran Addysg Grefyddol. Dechreuwyd ar y daith am 6.30 y bore ar fws enfawr cyfforddus a ymlwybrodd trwy dwnnel yr Ewro i Ffrainc. Y bore canlynol ar ôl brecwast ymwelwyd â rhai o olygfeydd mwyaf godidog Paris gan gynnwys y Twr Eiffl, Cadeirlan Notr Dame, Arc de Triomphe a llawer mwy. Profiad amheuthun oedd cael mynd mewn i'r Gadeirlan Notr Dame a rhyfeddu at faint a phensaernïaeth yr Eglwys.

Braint hefyd oedd cael clywed y gwasanaeth. Ar ôl gweld yr holl olygfeydd bendigedig cafwyd cyfle i fynd ar gwch oedd yn teithio i lawr yr afon Seine ac edrych ar y golygfeydd hyfryd o Baris yn yr haul cynnes. I gloi'r diwrnod, pryd o fwyd ym mwyty enwog Hard Rock Café.Y bore trannoeth aeth y criw i barc Disneyland ym Mharis i ymweld â chymeriadau Disney di ri a mynd ar y reidiau cyffrous. Ar ôl diwrnod llawn hwyl a sbri cafodd y criw fwyd blasus ym Mhlaned Hollywood cyn mynd i chwarae bowlio deg mewn lle cyfagos.

Yn llawer rhy gyflym, daeth yr amser i ffarwelio a Pharis a dechrau ar y daith yn nôl i Fro Myrddin. Diolch yn fawr iawn i Mrs Gwenan Morgans, Mrs Tracy Jenkins, Mrs Bethan Jenkins, Mr James Hensahw a Mr Adrian Williams am ofalu am yr holl griw ar y daith.

*Adroddiad gan Lowri Powell 8-1*